# Gwilym Hughes yn adrodd hanes Ffilmiau yng Ngwynedd


*Pentref Rhydymain*

Dros y trigain mlynedd diwethaf, mae Sir Gwynedd wedi chwarae rhan fawr ym myd cynhyrchu ffilmiau. Gwnaethpwyd y gyntaf yn 1918 ar *The Life of David Lloyd George* pan gymerodd Norman Page ac Alma Reville ran flaenllaw ac, wrth gwrs, yn Llanystumdwy y saethwyd y ffilm. Maes o law, daeth Alma Reville yn wraig i Alfred Hitchock.


Yna, yn 1937, daeth yr enwog Sabu (yr *Elephant boy*) i Gwm Bychan, Llanbedr ger Harlech i saethu *The Drum* a throwyd Cwm Bychan a Llanbedr am gyfnod yn fynyddoedd yr India. Yr actor Indiaidd Sabu Dastagir a chwaraeai ran yr arwr. Dyma ei ail ffilm o'r gyfres hir. Gwnaeth 17 o ffilmiau erbyn 1963. Felly, ar ddiwrnod braf o Fedi 1938, roedd Gorsaf Reilffordd Pen Sarn ger Harlech yn fwrlwm o ddiwydrwydd pan gyrhaeddodd Zoltan Korda, y Cyfarwyddwr enwog, a'i dîm, gan ddadlwytho deg o geffylau, tri mul, chwe gafr, ynghyd â dwy dunnell o borthiant. Gosodwyd y peiriant drylliau a'r magnelfeydd mynydd mewn mannau neilltuol ar gyfer dilyniant ffilm awyr agored. Yr hen geffyl, Pally, a'r drol o fferm Cwm Bychan, fu'n gyfrifol am gario'r cyfan i fyny i Gwm Bychan. Sylfaenwyd *The Drum* ar stori A. E. W. Mason ac mae wedi ei lleoli ar ffin Ogledd Orllewin India, a Sabu yn chwarae'r tywysog ifanc, a'r actor Raymond Massey yn chwarae rhan ei ewythr ysgeler o'r enw Ghul.

Roedd 1949 yn dipyn o flwyddyn i Ddolgellau a'r cylch gan mai dyma'r flwyddyn y cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn y dref ac, wyth milltir y tu allan, roedd y ffilm *The Last Days of Dolwyn* yn cael ei saethu, ym mhentref bach Rhydymain. Ymwelodd Emlyn Williams, y Cymro o Sir y Fflint, gyntaf â'r pentref ym mis Ebrill 1948. Dyma'r ffilm a lansiodd yrfa Richard Burton. Roedd y gwron o sir Fôn, Hugh Griffiths, ac Edith Evans yn cymryd rhan hefyd. Daeth y ffilm â thipyn o arian i bobol leol gan iddynt gael tâl am gymryd rhan y dorf, a hynny am wythnosau. Newidiwyd wyneb y capel a chanllaw'r bont. Ar Ebrill 1949 dangoswyd y ffilm yn sinema'r Plaza ym Mangor.

Ar Sadwrn 15 Mawrth 1997 bûm yn ffodus iawn i fod yn bresennnol yn Rhydymain ar achlysur dadorchuddiad cofeb i Emlyn Williams (1905-1987) a'i gysylltiad â'r ffilm a gyfarwyddodd ac a ddigwyddodd yn y pentref dros hanner can mlynedd yn ôl.

Ym 1953 yn Nhrawsfynydd fe ffilmiwyd y *Red Beret* gydag Alan Ladd, a'r ddau Gymro, Stanley Baker a Donald Houston. Defnyddiwyd hen feysydd saethu Trawsfynydd, a daeth rhan o faes glanio Llanbedr a Black Rock, ger Porthmadog, yn rhan o arfordir Ffrainc ar gyfer yr ymosodiad gan y *Red Berets*. Bu Alan Ladd a'r teulu yn aros ym Mhenrhyndeudraeth am dair wythnos ac, yn ystod eu harosiad, ymwelont â'r Bermo a Chastell Caernarfon.

Bum mlynedd yn ddiweddarach gwnaethpwyd y ffilm liw, *The Viking*, yng Nghaernarfon gyda Kirk



*Richard Burton a Barbara Couper.*